Mae gweithwyr ein hysgolion a chynghorau lleol yn haeddu cyflog teg

Mae pobl sy'n gweithio mewn cynghorau ac ysgolion lleol yn chwarae rôl allweddol o ran cadw eich cymuned yn ddiogel ac iach, helpu pobl sy'n ei chael yn anodd ymdopi a darparu addysg o safon i'ch plant a'ch wyrion.

Ond mae ein haelodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn wynebu argyfwng gwirioneddol o ganlyniad i rewi cyflogau a chapiau ar gyflogau yn enw cyni.

Mae nifer ohonynt wedi gweld eu cyflogau yn gostwng ymhellach ac ymhellach islaw prisiau – felly mae nifer ohonynt yn cael trafferth talu biliau, wedi colli pumed o'u hincwm ers 2010.

Ni allwn ddal ati fel hyn am byth. Dydy hi ddim yn iawn fod teuluoedd pobl sy'n gweithio'n galed yn dibynnu ar fanciau bwyd gan mai dyma'r unig ffordd i gael dau ben llinyn ynghyd.

Credwn fod y gwasanaethau allweddol hyn a'r bobl sy'n eu darparu yn werth mwy na thoriadau a rhewi cyflogau diddiwedd.

GMB
GMB@WORK

UNISON
Cymru Wales

unite
the UNION

Allwn ni ddim dal ati i gwtogi'r gwasanaethau hyn oherwydd nad yw'r llywodraeth yn rhoi digon o arian i gynghorau lleol i sicrhau eu bod yno pan fyddwn eu hangen a bod y gweithwyr sy'n eu darparu yn cael eu trin gydag urddas a'u talu'n briodol am y swyddi allweddol maent yn eu gwneud.

Mae pawb yn colli os bydd ein gwasanaethau yn cael eu cwtogi i'r eithaf a bod yr oll sy'n weddill yn cael ei gynnal ar geiniog a dimai.

Dyma pam fod y tair undeb llafur, UNISON, Unite a'r GMB, sy'n cynrychioli cyflogeion cynghorau ac ysgolion, yn datgan mai digon yw digon. Mae'n bryd i ni gydnabod eu cyfraniad gwerthfawr i'n bywydau i gyd a rhoi codiad cyflog iddynt sy'n eu galluogi i gael rhywfaint o'r tâl maent wedi ei golli ers 2010 yn ôl.

Does bosibl nad yw hynny'n ormod i ofyn gan y wlad sydd bumed yn y byd o ran cyfoeth?

Felly, os yw gwasanaethau fel casglu sbwriel ac ailgylchu yn bwysig i chi – os ydych chi'n gwerthfawrogi gwaith safnau masnach, iechyd amgylcheddol a thrwsio tai ac yn cefnogi gwasanaethau plant, ysgolion, addysg i oedolion, cartrefi gofal a gweithwyr gofal yn y cartref – yna cefnogwch eu hawliad am godiad cyflog teg.

Am fwy o wybodaeth ewch i:

unison.org.uk/fairpaynow
unitetheunion.org.uk/campaigning
gmb.org.uk

GMB
GMB@WORK

UNISON
Cymru Wales

unite
the UNION

Cyhoeddwyd ar y cyd gan GMB, UNISON ac Unite.
Argraffwyd gan UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY.
CU/Tachwedd 2017/24729/3840/UNP 14903.

Our local school and council workers deserve fair pay

People who work in local councils and schools play a key role in keeping your community safe and healthy, helping people who are struggling to cope and providing a quality education for your children and grandchildren.

But our members who provide these services are facing a crisis as a result of pay freezes and pay caps in the name of austerity.

Many of them have seen their pay falling further and further behind prices – so many are struggling to pay their bills, having lost a fifth of their income since 2010.

We can't go on like this. It is not right that the families of hard working people are relying on food banks because it's the only way they can make ends meet.

We believe that these vital services and the people who provide them are worth more than endless cuts and pay freezes.

GMB
GMB@WORK

UNISON
the public service union

unite
theUNION

We can't keep cutting these services because the government won't give local councils enough money to ensure that they are there when we need them and that the workers who provide them are treated with dignity and paid properly for the vital jobs they do.

We all lose if our services are cut to the bone and what is left is run on a shoestring.

That's why the three trade unions, UNISON, Unite and GMB, who represent council and school employees, are saying enough is enough. It's time to recognise the valuable contribution that they make to all our lives and give them a pay rise that enables them to get back some of the pay they have lost since 2010.

That surely can't be too much to ask for the fifth richest nation in the world?

So, if services like refuse collection and recycling matter to you - if you value the work that trading standards, environmental health and housing repairs do and if you support children's services, schools, adult education, care homes and home care workers – then please support their claim for a decent pay rise.

Find out more at:

unison.org.uk/fairpaynow
unitetheunion.org.uk/campaigning
gmb.org.uk

Published jointly by GMB, UNISON and Unite.
Printed by UNISON, UNISON Centre, 130 Euston Road, London NW1 2AY.
CU/November 2017/24729/3840/UNP 14903.